**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: PO/JB/72/2025

18 Chwefror 2024

Annwyl Sian,

Diolch am y cwestiwn ysgrifenedig a gyflwynwyd gennych ar 13 Ionawr 2025 i mi ymateb iddo.

**(WQ95367):** A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar gynnydd y gwaith tuag at sefydlu ysgol lywodraethu genedlaethol?

Yn dilyn gwaith archwilio fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio ynghylch sut y gallai Ysgol Lywodraethu Genedlaethol gyfrannu at newid sylweddol o ran gwreiddio'r syniad y tu ôl i Un Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru, mae adnoddau wedi'u crynhoi a'u cyfeirio i sicrhau'r effaith fwyaf.

Dyma rai o’r pethau sydd wedi’i cyflawni eisoes:

- Cyflwyno a chyhoeddi Map Tirwedd – gan ddwyn ynghyd mewn un lle fanylion y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnig rhaglenni dysgu i staff gwasanaethau cyhoeddus Cymru a'r trydydd sector.
- Datblygu, am y tro cyntaf, Gynnig wedi’i Guradu – gan ddarparu ymyriadau Arweinyddiaeth wedi’u targedu at arweinwyr a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, yn dibynnu ar ble maen nhw yn eu taith arweinyddiaeth.
- Cyflymu’r gwaith o gynllunio a datblygu rhaglenni cymorth arweinyddiaeth arloesol, gan gomisiynu rhaglenni newydd sy'n mynd i'r afael â bylchau a nodwyd trwy ymchwil a dadansoddi.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

Jayne Bryant

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.